**RHONDDA CYNON TAF**

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 21 Mawrth 2024 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd L A Tomkinson
Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd R Williams

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd D Grehan

## Swyddogion oedd yn bresennol: -

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd M Norris

### 230 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Dennis.

### 231 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees wedi datgan buddiant personol mewn perthynas â Chais 23/144: Dymchwel adeiladau presennol, bwriad i adeiladu 4 annedd breswyl a 4 fflat, gwaith tirlunio, lliniaru clwydo ystlumod, storfa finiau, storfa feiciau a gwaith cysylltiedig. YR HEN YSGOL, FFORDD MERTHYR, LLWYDCOED, ABERDÂR, CF44 0UT.
"Rydw i'n adnabod dau o'r siaradwyr cyhoeddus o ganlyniad i fy ngwaith yn y gymuned"

**232 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**233 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**234 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 22.02.24 yn rhai cywir.

**235 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**236 CAIS RHIF: 23/1444**

**Dymchwel adeiladau presennol, bwriad i adeiladu 4 annedd breswyl a 4 fflat, gwaith tirlunio, lliniaru clwydo ystlumod, storfa finiau, storfa feiciau a gwaith cysylltiedig. YR HEN YSGOL, FFORDD MERTHYR, LLWYDCOED, ABERDÂR, CF44 0UT**

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal Ymweliad Safle. Bwriad hyn yw ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar ddiogelwch y briffordd a chynaliadwyedd y lleoliad.

237 **CAIS RHIF: 24/0017**

**Estyniad unllawr a deulawr, 20 HEOL Y PINWYDD, GLYNFACH, PORTH, CF39 9NL**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Ms A Gregory (Gwrthwynebydd)
- Ms C Walters (Gwrthwynebydd)
- Ms B Tatchell (Gwrthwynebydd)

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** gohirio penderfynu ar y cais i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn gofyn i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth bellach sy'n dangos effaith weledol y datblygiad arfaethedig ar eiddo cyfagos.

(**Nodwch:** Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Tomkinson wedi ymuno â'r cyfarfod yn ystod yr eitem yma, felly ni chymerodd ran yn y bleidlais)

238 **CAIS RHIF: 23/1294**

**Newid defnydd yn rhannol o swyddfeydd (dosbarth defnydd B1) i gampfa (dosbarth defnydd D2) TŶ FAIRLEAP, HEOL ABERHONDDU, HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9NS**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr M Harris (Cefnogwr)
- Ms S Tuck (Cefnogwr)

Rhoddodd y Pennaeth Materion Cynllunio amlinelliad o gynnwys dau lythyr 'hwyr' a dderbyniwyd oddi wrth yr Aelod Lleol nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor, y Cynghorydd A Rogers, o blaid y cais a llythyr gan drigolion o eiddo cyfagos sy'n nodi'u pryderon mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau a amlinellir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r amod ychwanegol yma: 6:

Amod 6: Er gwaethaf y cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno, ni fydd gwaith ar y datblygiad yn dechrau nes y bydd y cynllun peirianneg llawn a manylion y gwaith i ledu'r mynediad preifat a rennir i 4.5metr, gan gynnwys y cysylltiad â Heol Aberhonddu, wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r datblygiad gael ei wneud yn unol â'r manylion sydd wedi'u cymeradwyo cyn meddiant llesiannol.

RHESWM: Sicrhau digonoldeb y datblygiad arfaethedig a hynny er budd

diogelwch y briffordd ac yn unol â Pholisi AW5, Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

## 239 CAIS RHIF: 23/1194

**Adeiladu 14 annedd fforddiadwy gyda system ddraenio gynaliadwy, mannau parcio a gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd cynllun diwygiedig y safle, cynigion tirlunio meddal, Manyleb Tirlunio a Chynllun Rheoli, Datganiad Isadeiledd Gwyrdd, Cynllun Rheoli Cynefin a Strategaeth Digolledu Rhywogaethau ar 22 Chwefror 2024) SAFLE HEN YSGOL FABANOD RHIW-GARN, WAUN WEN, TREBANOG, PORTH, CF39 9LX**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar Gytundeb 106.

i) Bydd yr anheddau'n cael eu sefydlu a'u cynnal fel unedau fforddiadwy, a hynny at y diben parhaus o ddiwallu anghenion tai sydd wedi'u nodi yn yr ardal leol; a

ii) Sicrhau cyfraniad oddi ar y safle gwerth £14,000 (£1,000 fesul annedd) er mwyn gwella'r man chwarae presennol yn Henllys.

## 240 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd, Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 26/02/2024 - 08/03/2024.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.05 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**